# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 21 Tachwedd, 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENT:** | T. Victor Hughes (Cadeirydd)<br>Aled M. Jones ( Is-Gadeirydd)<br><br>R Dew, John Griffith, K P Hughes, D R Hughes, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, R Ll Jones, A M Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Raymond Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **IN ATTENDANCE:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd,<br>Pennaeth Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol (DW),<br>Mr. Graham Duddle (Caffael),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **APOLOGIES:** | Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, H E Jones, G O Jones a Richard Owain Jones |
| **ALSO PRESENT:** | Mr. Clive Bleasdale (Weightmans LLP),<br>Ms. Caroline Baker (Cyfarwyddwraig) DTZ,<br>Mr. Anthony O'Keefe (Cyfarwyddwr) DTZ,<br>Ms. Heather Standidge (Uwch Ymgynghorydd) DTZ. |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i gynrychiolwyr y Cyfreithwyr Weightmans LLP a DTZ.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2013.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

*"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, ohderwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf."*

**4 YSTYRIED ARGYMHELLION YR YMGYNGHORWYR ALLANOL AR Y BROSES I WAREDU A SAFLE RHOSGOCH**

Cafwyd crynodeb o hanes safle Rhosgoch gan yr Ysgrifennydd ynghyd gwybodaeth am yr ymdrechion a wnaed i gael gwared ar y tir dros y blynyddoedd. Pwysleisiodd y bydd yn rhaid i'r broses ar gyfer cael gwared ar y safle gydymffurfio gyda rheoliadau'r Comisiwn Elusennau a bod er budd pobl Ynys Môn.

Nodwyd bod Weightmans LLP wedi eu penodi i roi cyngor cyfreithiol ynghylch cael gwared ar y safle yn Rhosgoch ac yn dilyn eu hargymhelliad i gontractio cymorth arbenigol i asesu'r safle ac I fynd trwy'r broses gwerth gorau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, penodwyd DTZ i wneud gwaith ymchwil arbenigol ar ran yr Ymddiriedolaeth.

Cafwyd amlinelliad o gefndir y cwmni gan gynrychiolwyr DTZ ac roeddent yn awyddus i ddeall dyheadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cael gwared ar safle Rhosgoch a'r broses ar gyfer marchnata a chael gwared ar y tir.

Yn dilyn trafodaethau manwl **PENDERFYNWYD:-**

- **Comisiynu DTZ i gynnal trafodaethau gyda'r rheini a all fod â diddordeb yn safle Rhosgoch a chyflwyno gwahanol opsiynau i'r Ymddiriedolaeth lawn ar ddechrau'r flwyddyn.**

**Mr. T. Victor Hughes**
**Cadeirydd**